# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 17 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(216)v2

**Datganiad gan y Llywydd**

Cyhoeddodd y Llywydd fod y Bil Tai (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol heddiw, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75.

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf.  Gwahoddodd y Llywydd llefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ôl cwestiwn 2. Atebwyd cwestiwn 3 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

Dechreuodd yr eitem am 14:18

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf.  Gwahoddodd y Llywydd llefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar ôl cwestiwn 2. Atebwyd cwestiwn 4 gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Atebwyd cwestiwn 5 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Atebwyd cwestiwn 7 gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd.

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020**

Dechreuodd yr eitem am 15:08

**NDM5563 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE ar gyfer 2014-2020, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15:53

**NDM5565 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn well gyda'i gilydd ac y dylai'r Alban ddewis aros yn y DU ar 18 Medi 2014.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 37 | 46 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

1. Yn credu bod dyfodol yr Alban yn fater i bobl yr Alban.

2. Yn credu ymhellach mai'r ffordd orau o wasanaethu'r cysylltiadau cryf rhwng cenhedloedd yr ynysoedd hyn yw drwy ysbryd o gydweithredu a chydraddoldeb.

3. Yn nodi y byddai ymwreiddio'r Fformiwla Barnett, fel yr addawyd gan bleidiau'r DU yn yr ymgyrch 'Na' ar gyfer y refferendwm ar 18 Medi 2014, yn niweidiol i Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 37 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg), Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Cymru, beth bynnag fo'r canlyniad, siarad ag un llais, ac yn galw am weithredu'n gyflym yr argymhellion yn Rhannau 1 a 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ac am sefydlu confensiwn cyfansoddiadau ledled y DU i greu cynllun drafft am undeb newydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 9 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5565 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn well gyda'i gilydd ac y dylai'r Alban ddewis aros yn y DU ar 18 Medi 2014.

2. Yn credu y dylai Cymru, beth bynnag fo'r canlyniad, siarad ag un llais, ac yn galw am weithredu'n gyflym yr argymhellion yn Rhannau 1 a 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ac am sefydlu confensiwn cyfansoddiadau ledled y DU i greu cynllun drafft am undeb newydd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 9 | 9 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 5 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16:53

**NDM5562 Elin Jones AC (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod 266,000 o weithwyr yng Nghymru yn cael eu talu llai na'r cyflog byw.
2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at greu cyflog byw yng Nghymru drwy:

a) sefydlu cyflog byw ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;
b) gweithio gyda chyflogwyr i esbonio manteision talu'r cyflog byw; a
c) cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Cyflogau Isel i sicrhau bod yr isafswm cyflog yn codi i lefel y cyflog byw erbyn 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 13 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 17:44

**6 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17:47

**NDM5564 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**

Gohebiaeth ar bapur: hawl y defnyddiwr i ddewis

**Crynodeb o Bleidleisiau**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.06

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Medi 2014**